# Trawsblaniadau afu/iau rhoddwr byw

Tachwedd 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae trawsblaniadau afu/iau rhoddwr byw yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio yn y GIG ar gyfer rhoddwyr a derbynwyr addas, ar yr amod y caiff gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eu diwallu.

Mae NICE yn gofyn i weithwyr iechyd proffesiynol anfon gwybodaeth am bob rhoddwr a derbyniwr sydd wedi cael y llawdriniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i gronfa ddata'r gofrestr trawsblaniad Gwaed a Trawsblaniad y DU y GIG er mwyn gallu cadarnhau diogelwch y driniaeth a pa mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae rhoddwyr a derbynwyr afu/iau yn wynebu peryglon sylweddol. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Dylech gael profion sgrinio a gwasanaeth cynghori am y risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth a dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig glir, yn cynnwys gwybodaeth gan yr Awdurdod Meinwe Dynol.

Trefnir cyfweliad gydag asesydd annibynnol, fel y bo'n ofynnol gan yr Awdurdod Meinwe Dynol. Mae hyn er mwyn sicrhau nad ydych yn cael eich darbwyllo i gael y driniaeth yn erbyn eich ewyllys, nad oes unrhyw wobr yn gysylltiedig â'r driniaeth a bod gennych ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad.

Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

**Sylwadau eraill gan NICE**

Dywedodd NICE y dylai rhoddwyr gael apwyntiadau dilynol ar ôl y driniaeth er mwyn archwilio eu hiechyd, yn cynnwys eu lles seicolegol.

## Eich tîm gofal iechyd

Dylai tîm gofal iechyd sy'n brofiadol mewn trawsblaniadau afu/iau rhoddwr byw gwblhau'r driniaeth mewn canolfannau trawsblaniad arbenigol.

## Y cyflwr

Mae trawsblaniadau afu/iau yn opsiwn i unigolion â chlefyd diwedd oes methiant yr afu/iau (er enghraifft oherwydd clefyd yr afu/iau neu haint ar yr afu/iau) a rhai mathau o ganser yr afu/iau sylfaenol.

Daw organau ar gyfer trawsblaniad fel arfer gan roddwyr sydd wedi marw'n ddiweddar, ond nid oes digon o organau ar gael. Fel arfer, mae rhoddwr byw yn berthynas gwaed (er enghraifft rhiant, brawd neu chwaer) ond gall hefyd fod yn gymar, partner neu wirfoddolwr). Gall y rhoddwr fod yn rhywun nad ydynt erioed wedi'i gyfarfod neu nad ydynt yn ei adnabod (gelwir hyn yn rhodd allgarol anghyfeiriedig).

Mae NICE wedi ystyried defnyddio trawsblaniad afu/iau rhoddwr byw fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Mae Trawsblaniad afu/iau rhoddwr byw yn llawdriniaeth fawr i roi afu/iau iach gan roddwr dynol byw yn lle afu/iau sydd wedi'i heintio neu ei niweidio. Mae'r rhoddwr yn cael llawdriniaeth o dan anesthetig cyffredinol i dynnu naill ai llabed dde yr afu/iau (fel arfer i'w drawsblannu i mewn i oedolyn) neu'r llabed chwith (fel arfer ar gyfer plentyn). Weithiau caiff rhan o'r afu/iau ei thynnu, ac wedyn caiff y darn hwn ei drawsblannu i mewn i faban neu blentyn ifanc. Mae'r llabed dde yn fwy na'r chwith ac yn haws i'w drawsblannu. Fodd bynnag, mae ei dynnu o'r rhoddwr yn fwy cymhleth ac yn peri mwy o risgiau.

Caiff yr afu/iau a roddir ei drawsblannu ar unwaith i mewn i'r derbynnydd. Bydd yr afu/iau sydd wedi'i drawsblannu a gweddill afu/iau y rhoddwr yn aildyfu i faint afu/iau arferol.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd y gellid cwblhau trawsblaniadau afu/iau rhoddwr byw yn y GIG, ar yr amod y caiff gofynion cyfreithiol a rheoliadol eu bodloni. Roedd yr 18 astudiaeth (yn cynnwys adolygiadau ac arolygon) a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 30,000 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangosodd yr astudiaethau y manteision canlynol:

- Roedd cyfraddau goroesi mewn plant sy'n derbyn trawsblaniadau afu/iau gan roddwyr byw (92%) yn uwch na thrawsblaniadau gan roddwyr marw (81%) ac roedd meinwe'r afu/iau yn goroesi mewn mwy o blant a oedd yn cael trawsblaniadau afu/iau byw (81%) na rhoddwyr marw (73%).
- I drawsblaniad rhwng oedolion, roedd cyfraddau goroesi yn debyg i drawsblaniad gan roddwyr byw a marw.
- Roedd bron pob rhoddwr yn dychwelyd i fywyd arferol o fewn 6 mis i'r llawdriniaeth. Erbyn hynny, roedd afu/iau y rhoddwr wedi adfer i 89% o'i faint gwreiddiol.
- Roedd ansawdd bywyd rhoddwyr yn well nag ansawdd bywyd y boblogaeth gyffredinol dros gyfnod o 14 blwyddyn ar ôl rhoi'r afu/iau.

Dangosodd yr astudiaethau bod risgiau sylweddol yn gysylltiedig â thrawsblannu afu/iau rhoddwr byw i'r derbynydd a'r rhoddwr o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys marwolaeth a rhai cymhlethdodau a all beryglu bywyd. Mae'r risgiau i roddwyr a derbynwyr yn wahanol. Dylai eich meddyg sicrhau eich bod yn deall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r driniaeth, a'u hegluro'n fanwl. Mae angen gwasanaeth cwnsela cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Esboniad o'r termau meddygol

### Gofynion cyfreithiol a rheoliadol

Dywedodd NICE bod gofynion yr Awdurdod Meinwe Dynol, sy'n cymeradwyo rhoi organau, yn cael eu bodloni wrth gyflawni trawsblaniadau afu/iau rhoddwr byw.

Ceir hefyd ganllawiau ar gyfer trawsblannu afu/iau rhoddwyr byw, y mae'n rhaid eu dilyn:

- Polisi Dewis Afu/Iau Grŵp Cynghori Rhoi Organau a Thrawsblannu Afu/Iau Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblannu'r GIG.
- Canllawiau Cymdeithas Trawsblannu Prydain ar gyfer Rhoi Organau Allgarol Cyfeiriedig.

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1729-7